

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Diolch am bob cydweithrediad wrth i ni barhau i ymateb i her y Coronafeirws.

Mabolgampau ysgol – yn anffodus oherwydd cyfyngiadau Covid-19 ni fydd modd i ni eich gwahodd i'r ysgol ar gyfer ein diwrnod mabolgampau arferol eleni. Fodd bynnag mi fydd pob dosbarth yn cynnal eu cystadlaethau mabolgampau ar sail dosbarth unigol. Mi fydd yr holl weithgareddau arferol y mabolgampau yn digwydd yn ystod y gwersi addysg gorfforol ar gae'r ysgol. Mi fydd dystysgrifau a marciau ar gyfer timau Arthur, Caradog a Dewi yn parhau.

Profion Cenedlaethol – eleni nid yw canlyniadau profion cenedlaethol yn cael eu hadrodd yn allanol. Fodd bynnag mi fydd athrawon yn defnyddio agweddau o'r profion yn achlysuol yn ystod y tymor yr haf er mwyn adnabod y camau nesaf o safbwyt datblygiad addysgol pob plentyn. Gobeithio y bydd hyn yn lleihau unrhyw bwysau ychwanegol ar ddisgyblion ac yn hyrwyddo eu lles mewn blwyddyn mor anarferol.

Beicio a cherdded i'r ysgol – mae'r ysgol yn awyddus i annog cymaint ohonoch i gerdded, beicio neu sgwtera i'r ysgol lle bo modd gwneud hynny yn ddiogel.

Gŵyl Calan Mai – cofiwch fod yr ysgol ar gau ar ddydd Llun, Mai 3ydd.

Gwyliau'r Sulgwyn a diwrnod HMS – Mi fydd yr ysgol yn cau ar ddydd Iau, Mai 27ain ar gyfer gwyliau'r Sulgwyn (sy'n cynnwys diwrnod HMS ar ddydd Gwener, Mai 28ain) Mi fydd yr ysgol yn ail agor ar ddydd Llun, Mehefin 7fed.

Symptomau - dylai unrhyw un sydd â symptomau Covid-19 aros gartref ar unwaith, archebu prawf a hysbysu'r ysgol. Mae angen i'r aelwyd gyfan hunanynysu nes bod canlyniad y prawf yn hysbys.

Mae'r symptomau'n cynnwys tymheredd uchel, peswch parhaus newydd a cholled neu newid i ymdeimlad o arogl neu flas. Gall fod symptomau eraill yn gynnar, fel cur pen, blinder ac gwinegon cyffredinol a phoenau sy'n gysylltiedig â'r ffliw fel arfer.

Cwricwlwm Newydd – diolch yn fawr iawn am yr adborth a'ch syniadau gwych ar gyfer datblygu cwricwlwm yr ysgol ar gyfer y dyfodol. Roedd un syniad gan riant yn ein hannog i feddwl am 100 o brofiadau / gweithgareddau y byddai pob disgybl o Ysgol Gymraeg Aberystwyth wedi ei gwblhau rhwng y Meithrin a Blwyddyn 6. Hoffwn i chi ddanfon rhai syniadau ataf e.e. creu gwaith celf ar y traeth, cynrychioli'r ysgol mewn tîm chwaraeon neu ymweld â Phendinas, unrhyw beth diddorol fydd yn annog brwd frydedd a chwil frydedd y disgyblion. Trafodwch gyda'ch plentyn / plant a cheisiwch feddwl am o leiaf un peth neu efallai eich deg uchaf a'u danfon ataf ar prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk cyn ddydd Gwener.

Os oes gennych unrhyw bryderon yna cysylltwch â mi ar unwaith.

R C Williams, Pennaeth

26/04/2021

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Thank you for all your cooperation as we continue to respond to the challenge of Coronavirus.

School Sports - unfortunately due to the constraints of Covid-19 we will not be able to invite you to school for our usual sports day this year. However, each class will run their sports competitions on an individual class basis. All the usual sports activities will take place during physical education lessons on the school field. Certificates and marks for the Arthur, Caradog and Dewi teams will remain.

National Tests - this year national test results are not reported externally. However, teachers will use aspects of the tests occasionally during the summer term time to identify the next steps in terms of each child's educational development. Hopefully this will reduce any additional pressure on pupils and promote their wellbeing in such an unusual year.

Cycling and walking to school - the school wants to encourage as many of you as possible to walk, cycle or scooter to school where it is possible to do so safely.

May Day Bank Holiday - remember the school is closed on Monday, May 3rd.

Whitsun Holiday and INSET day - The school will close on Thursday, May 27th for the Whitsun holidays (which includes INSET day on Friday, May 28th) The school will re-open on Monday, June 7th.

Symptoms - anyone with Covid-19 symptoms should stay home immediately, order a test and inform the school. The whole household needs to be isolated until the test result is known.

Symptoms include high temperature, a new persistent cough and loss or a change in sense of smell or taste. Other early symptoms may include headaches, general tiredness and vomiting and usually flu-related pains.

New Curriculum - thank you very much for the feedback and your great ideas for developing the school curriculum for the future. One idea from a parent prompted us to think of 100 experiences / activities that every pupil from Ysgol Gymraeg Aberystwyth would have completed between Nursery and Year 6. I would like you to send me some ideas e.g. create artwork on the beach, represent the school in a sports team or visit Pendinas, anything that will stimulate pupils' enthusiasm and curiosity. Talk to your child / children and try to think of at least one thing or maybe your top ten and send them to me at prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk before Friday.

If you have any worries regarding your child's education then please contact me immediately.

R C Williams, Headteacher

26/04/2021